<p>Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan fyfyrir ar y bywydau sy'n parhau i gael eu colli o ganlyniad i ymlediad byd-eang COVID-19; cynhaliodd y Bwrdd funud o dawelwch er cof am y rhai a fu farw.</p> <p>Estynnodd JW groeso penodol i'r rhai a oedd yn arsylwi'r cyfarfod, Verity Winn o Archwilio Cymru a Peter Jones o Lywodraeth Cymru; rhoddodd grynodedb o rôl y Bwrdd a'r Cod Ymddygiad y mae'n rhaid i'r bwrdd ei ddilyn wrth gynnal ei fusnes.</p> <p>Yna ailddatganodd JW y rhesymeg a oedd yn sail i'r agenda gyfyngedig a'r technegau a ddefnyddir gan y Bwrdd a'i bwyllgorau er mwyn cynnal trefniadau llywodraethu da yn ystod y pandemig. Nododd y bwriad i aildechrau ffrydio cyfarfodydd y Bwrdd yn fyw o fis Mehefin 2020 ymlaen.</p>	
PHW85/2020	Ymddiheuriadau

Nododd y Bwrdd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.
PHW86/2020 Datgan Buddiannau Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes ar y gofrestr datgan buddiannau.
PHW87/ 2020 Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 4 Mai 2020 a materion yn codi Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mai 2020. (Cyf 3.1.1.280520). Ystyriodd y Bwrdd y Cofnod o Gamau Gweithredu (Cyf 3.1.2.280520). Cymeradwyodd y Bwrdd y penderfyniad i gau'r camau gweithredu y nodwyd eu bod wedi'u cwblhau.
PHW88/2020 Adroddiad y Prif Weithredwr Derbyniodd y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr (Cyf 4.1.280520). Wrth gyflwyno ei hadroddiad, atgoffodd TC y Bwrdd o ymateb cynnar Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r pandemig COVID-19; roedd y sefydliad felly wedi bod yn gweithio ar lefel ymateb uwch am dri mis. Diolchodd TC i'r staff am eu hymateb parod i'r gwaith digynsail o addasu'r amgylchedd gweithredu yr oeddent yn gweithio ynddo. Aeth ymlaen i gyfeirio at raglen BBC Wales 'Coronavirus Testing: Behind the Scenes'; roedd y rhaglen hon wedi dangos sut yr oedd staff ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cydweithio i gynyddu'r gallu i brofi yng Nghymru. Roedd gwneud hynny wedi golygu oriau hir, aberthau personol a hyblygrwydd parhaus wrth ymateb i heriau newydd. Talodd y rhaglen deyrnged i dimau microbioleg, isadran sgrinio a Gwella Cymru, yr oedd pob un ohonynt, gyda chefnogaeth staff eraill, wedi gwneud cyfraniad allweddol i baratoi'r gwaith i gefnogi Strategaeth <i>Profi Olrhain Diogelu</i> Llywodraeth Cymru Yna tynnodd TC sylw at nifer o gyfarfodydd wythnosol ar lefel genedlaethol yr oedd hi ac eraill wedi bod yn cyfrannu atynt; roedd y gwaith yr oedd ei angen i reoli'r cyfathrebu a'r camau gweithredol yn sylweddol a'r tu allan i 'rhythm y frwydr ddyddiol' o reoli achosion o COVID-19 a phopeth a oedd yn gysylltiedig â hynny. I gloi, nododd TC bod y Cynllun Ymateb er Mwyn Diogelu Iechyd y Cyhoedd (y Cynllun Ymateb) wedi'i gyhoeddi; fel y gwyddai'r Bwrdd, roedd hyn wedi llywio'r strategaeth <i>Profi Olrhain Diogelu</i> a diolchodd TC i'r holl gyfranogwyr. Mewn trafodaethau, mynegodd aelodau'r Bwrdd eu gwerthfawrogiad o waith caled, dyfalbarhad ac ymrwymiad pob aelod o staff yn ystod y cyfnod digynsail hwn; cofnododd y Bwrdd hefyd ei ddiolch i TC a'r bwrdd gweithredol am eu harweinyddiaeth sefydliadol. Yn olaf, gofynnodd y Bwrdd i QS rannu'r Cynllun

Ymateb gyda phartneriaid IANPHI, i gefnogi dysgu rhyngwladol. **Camau Gweithredu : QS**

Penderfynodd y Bwrdd dderbyn y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

PHW89/2020 Cynllun Gweithredu (Y Cynllun)

Derbyniodd y Bwrdd y Cynllun Gweithredu (Cyf 4.2.280520).

Dywedodd TC fod y Cynllun gerbron y Bwrdd yn cynrychioli Cynllun Cam 1 tair wythnos a oedd yn dilyn ymlaen yn uniongyrchol o'r Cynllun Ymateb. Byddai'r cynllun hwn, Cynllun Cam 2 ac unrhyw gamau dilynol yn adlewyrchu rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru a'i gyfraniad tuag at gyflawni *Profi Orlhain Diogelu*.

Cyflwynodd QS y Cynllun, gan ddatgan bod y Fframwaith Gweithredu Canfod Achosion ac Orlhain Cysylltiadau COVID-19, a nodir yn Atodiad B, yn ddogfen ategol. Roedd gwaith ar y Cynllun wedi dechrau yn syth ar ôl cwblhau'r Cynllun Ymateb; roedd Cam 1 yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 8 Mehefin 2020 ac roedd yn cynnwys y gweithgareddau, cynnyrch a risgiau ar gyfer pob ffrwd waith. Cynigiodd y byddai'n rhoi sylwadau drwy eithriad, gan gyflwyno cydweithwyr eraill fel y bo'n briodol a gwahodd cwestiynau wrth fynd ymlaen.

Olrhain Cysylltiadau

Nododd QS rolau Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol; roedd Grŵp Trosolwg Strategol Profi Orlhain Diogelu Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu ffrwd waith olrhain cysylltiadau. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Nodyn Gweithredol' yn awr ar gyfer *Profi, Orlhain, Diogelu*. Roedd hyn yn disgrifio camau 0-2; byddai Cam 1 yn dechrau ar 1 Mehefin, gan grynhoi'r hyn a ddysgwyd o'r 4 cynllun peilot sy'n cael eu cynnal yng ngham 0. Byddai Cam 2, o 8 Mehefin ymlaen yn gweld y newid i'r llwyfan digidol Cymru gyfan, gyda data a dderbynnir yn bwydo'n uniongyrchol i system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid Microsoft Dynamics.

Holodd KE ynglŷn â chydawnsedd y daenlen excel sydd wedi'i chyflenwi'n genedlaethol yn ystod Cam 1 ag unrhyw systemau lleol sy'n cael eu defnyddio. Cadarnhaodd QS y byddai pob rhan o Gymru'n casglu data yn erbyn set ddata ofynnol benodol.

Croesawodd StP y ffaith y byddai safonau Cymru gyfan yn cael eu cynhyrchu a chanllaw cynhwysfawr ar weithrediad y broses olrhain cysylltiadau; soniodd QS am 'egllurhad' o'r canllaw, a fyddai'n cynnwys partneriaid, er mwyn sicrhau eglurder o ran y disgwyliadau.

Holodd JW ynghylch y negeseuon parhaus ar hylendid dwylo sylfaenol a chadw pellter cymdeithasol; dywedodd HG fod gwaith ar yr ymgyrch yn mynd rhagddo neu ar y gweill.

Samplu a Phrofi

Esboniodd QS rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru yn hyn; tynnodd sylw'r Bwrdd at fynediad y cyhoedd at amseroedd archebu profion ar-lein o 29 Mai ac arwyddocâd cymeradwyo'r achos busnes ar gyfer y labordy newydd yn Imperial Park (IP5).

Holodd DE ynghylch amseroedd cynhyrchu canlyniadau'r profion; esboniodd QS gyd-destun ei ateb, gan nodi bod cyfrifoldeb Iechyd Cyhoeddus Cymru'n dechrau pan fyddai'r swabiau'n cyrraedd y labordai. Roedd ffrwd waith samplu a phrofi'r Grŵp Trosolwg Strategol Profi Orlhain Diogelu sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru yn datblygu mesurau perfformiad 'o'r dechrau i'r diwedd'.

Soniodd TC am y ffyrdd y byddai capasiti ychwanegol labordai ar draws Cymru yn cynorthwyo'r amseroedd dychwelyd canlyniadau; ychwanegodd HG fanylion ynglŷn â chapasiti labordai'r Rhyl a Singleton, gydag archebion ychwanegol yn parhau i fod yn y system.

Nododd y Bwrdd hefyd y sefyllfa ar brofion gwrthgyrff; roedd hyn yn adlewyrchu'r wybodaeth a ddarparwyd yn y SitReps wythnosol.

Goruchwyliaeth

Esboniodd QS ffocws ffrwd waith goruchwyliaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r broses fewnol i recriwtio 9 dadansoddwr ychwanegol i gefnogi'r gwaith. Soniodd yn benodol am y gwaith presennol sy'n cefnogi cyfranogiad 250 o drigolion Cymru ym mhrawf brechlyn Rhydychen; ac er nad oedd hyn yn rhan o'r cynllun gwreiddiol, roedd yn ychwanegiad pwysig.

Nododd QS y berthynas waith agos gyda Chell Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru; croesawodd StP y ffocws ar y gyfres o ddangosyddion arfaethedig ar gyfer y system goruchwyllo COVID a'i fod yn awyddus i dderbyn gwybodaeth bellach am hyn.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Rhoddodd HG grynoded o rôl allweddol Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda negeseuon i'r cyhoedd a darparu cymorth i Lywodraeth Cymru. Rhoddodd amlinelliad o ffocws y gwaith yn ystod y 6 wythnos nesaf a chafwyd manylion ychwanegol gan TC am gyfranogiad y tîm newid ymddygiad.

Croesawodd JW yr amlygrwydd a roddwyd i'r llyf gwaith hwn, a chanmolodd y tîm ar yr ymgyrch 'Sut wyt ti?' ac ehangder yr ymgysylltiad mewnol ac allanol.

Ein Pobl

Soniodd RB-W am y sefyllfa o ran parodrwydd ar gyfer y Cynllun a'r angen i gydbwyso'r gofyniad hwnnw gyda'r angen i gefnogi'r Rhaglen Adferiad Sefydliadol.

Roedd iechyd, llesiant a diogelwch y staff yn hollbwysig a dywedodd RB-W fod yr adborth cychwynnol o'r arolwg staff yn gadarnhaol. Soniodd hefyd am lansio'r offeryn asesu risg ar gyfer staff o gefndir BAME; roedd modd defnyddio hwn yn ehangach a byddai'n cael ei gyflwyno yn unol â hynny. Croesawodd JR hyn, gan bwysleisio ei bwysigrwydd.

Diolchodd JW i RB-W am y diweddariad, gan nodi y byddai'r Bwrdd yn cael cyfle arall i holi am faterion yn ymwneud â'r gweithlu yn yr eitem nesaf ar yr agenda.

Gofynion Digidol

Tynnodd QS sylw'r Bwrdd at y risgiau digidol a nodwyd, gan bwysleisio pwysigrwydd allweddol y System Rheoli Achosion a Chontractau a chymeradwyo achos busnes IP5. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd proses effeithiol o lywodraethu gwybodaeth ar draws y system.

Dysgu o Wledydd Eraill a Gwybodaeth Ryngwladol

Atgoffodd QS y Bwrdd o rôl weithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn IANPHI a manteision ymgysylltiad rhyngwladol drwy weminarau a dulliau eraill.

Pwysleisiodd MB bwysigrwydd penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn lliniaru canlyniadau negyddol COVID-19 a sicrhau'r buddion mwyaf. Nododd y ffyrdd yr oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn defnyddio ei statws Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd: drwy'r Arolwg Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Sganio Gorwelion Rhyngwladol a datblygu Asesiadau Asesu'r Effaith ar Iechyd COVID-19. Byddai Dangosfwrdd o dueddiadau iechyd ehangach yn cwblhau'r gyfres o gynnyrch systemig ar sail gwybodaeth a fydd yn llywio polisïau a phenderfyniadau.

Myfyriodd SP ar sut yr oedd y gwaith hwn yn ffurfio rhan mor bwysig o rôl 'Iechyd Cyhoeddus Cymru'; adleisiwyd y pwynt hwnnw gan KE, gan gyfeirio'n benodol at gyfraniad y dangosfwrdd arfaethedig a fyddai'n cynnig gwrth ychwanegol.

Ymchwil a Gwerthuso

Rhoddodd QS grynodedeb o'r ffyrdd y mae gweithgareddau ymchwil a gwerthuso wedi'u halinio i ffrydiau gwaith y Cynllun, yn yr un modd â'r cynlluniau gwerthuso parhaus. Cadarnhaodd SB y byddai'n anfon y gwerthusiad o'r swyddogaeth olrhain cysylltiadau gwreiddiol. **CAMAU GWEITHREDU: SB**

Ansawdd, Diogelwch, Llywodraethu Gwybodaeth a Risg

Amlinellodd RB-W y ffyrdd y byddai'r ffrwd waith hon yn cefnogi 4 ffrwd waith yn ymwneud ag ymateb iechyd y cyhoedd ac yn darparu dulliau a chynnyrch i sicrhau Trefn Reoli Aur y Pwyllgor Ansawdd, Diogelu a Gwella a'r Bwrdd. Nododd aelodau'r Bwrdd y rhestr o gynhyrchion, y risgiau a'r problemau a amlygwyd a'r trefniadau goruchwylio.

Cyllid a'r Gadwyn Gyflenwi

Tynnodd HG sylw'r Bwrdd at y costau ariannol sy'n gysylltiedig â phrofi; roedd wedi tynnu sylw Llywodraeth Cymru at y rhain, ond roedd cyfanswm cwantwm y cyllid ar gyfer mynd i'r afael â chostau COVID-19 ar hyd a lled Cymru yn parhau i fod yn gyfnewidiol ac yn ansicr.

Cyfeiriodd hefyd at y dadansoddiad pellach o gostau sy'n cael ei gynnal mewn 56 o'r 70 o gyflawniadau Cam 1.

Perthnasoedd

Rhoddodd HG amlinelliad o'r gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y ffrwd waith hon, gan nodi'r cysylltiad gyda chyfathrebu ac ymgysylltu.

I gloi, dywedodd QS fod y Fframwaith Gweithredol, a nodir yn Atodiad B, wedi'i baratoi cyn cyhoeddi *Profi, Orlhain a Diogelu* ac fe'i cyflwynwyd er gwybodaeth.

Diolchodd i Sally Atwood a Nathan Jones am eu cymorth amhrisiadwy wrth lunio'r Cynllun; diolchodd QS i'w holl gydweithwyr am eu mewnbwn a chymeradwyodd y Cynllun i'w gyflwyno i'r Bwrdd.

Ar ran y Bwrdd, diolchodd JW i bawb a oedd wedi bod yn gysylltiedig â chynhyrchu'r Cynllun; roedd yn nodi rolau a chyfrifoldebau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn glir, yn nodi'r gweithgareddau, cynnyrch a risgiau a oedd yn gysylltiedig â phob ffrwd waith ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer Cynllun Cam 2. Cadarnhaodd JW y byddai'r Bwrdd cyfan yn cael cyfle i drafod hynny yr wythnos ganlynol.

Penderfynodd y Bwrdd gymeradwyo'r Cynllun Gweithredu a nododd y cynnydd, gan gynnwys cynhyrchu Fframwaith Gweithredu Canfod Achosion ac Orlhain Cysylltiadau COVID-19.

PHW90/2020 COVID-19**Derbyniodd** y Bwrdd y Diweddariad ar COVID-19 (Cyf 4.3.1.280520)

O gofio bod y drafodaeth fanwl ar y Cynllun wedi cwmpasu llawer o'r deunydd sydd yn yr adroddiad hwn, cynigiodd JW y dylid canolbwyntio ar Atodiad 5 – gweithlu Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd aelodau'r Bwrdd yn cefnogi'r cynnig hwn a gofynnodd JW i RB-W ddarparu diweddariad.

Tynnodd RB-W sylw'r Bwrdd at y system symudiadau'r gweithlu a'r nifer o ddangosfyrddau rhyngweithiol; darparodd drosolwg o argaeledd y gweithlu, gan nodi bod 1,562 aelod o staff naill ai wedi'u hadleoli fel rhan o'r ymateb i COVID-19 neu roeddent yn darparu gwasanaeth critigol nad yw'n gysylltiedig â COVID. Roedd 332 ar gael i'w hadleoli'n fewnol neu ar gyfer cyd-gymorth i'r GIG yn ehangach.

Aeth RB-W ymlaen i sôn am nifer y ceisiadau cyd-gymorth a'r pwysau sy'n gysylltiedig â staffio'r Ganolfan Cysylltiadau Genedlaethol, COVID a swyddogaethau sy'n bwysig i'r busnes. Roedd yn cydnabod y pryder gwirioneddol yr oedd nifer o aelodau o staff yn ei brofi ynglŷn â dychwelyd i'r gweithle.

Gofynnodd KE am eglurder ynghylch nifer y staff a oedd ar gael i'w hadleoli, gan ofyn a oedd y rhif 322 yn deillio o'r dadansoddiad pellach o'r amcangyfrif 500-550 a gyflwynwyd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd.

Cyflwynodd RB-W y gwaith sy'n parhau i fynd rhagddo i boblogi'r model gweithlu digidol a chytunodd i ddarparu manylion ychwanegol y tu hwnt i'r cyfarfod: **CAMAU GWEITHREDU: RB-W**

Yna, estynnodd JW wahoddiad i PB roi sylwadau ar y gwaith sy'n mynd rhagddo ar Fy Nghyfraniad, yn dilyn yr adroddiad archwilio cyfyngedig yr oedd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol wedi'i ystyried.

Nododd PB yr heriau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r lefel o gydymffurfiaeth sydd ei hangen a'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu cynllun gweithredu.

Cadarnhaodd TC y byddai'r weithrediaeth yn defnyddio'r Rhaglen Adfer Sefydliadol i ailgynllunio'r broses a chyflwyno hyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol. **CAMAU GWEITHREDU: PB**

Yna rhoddodd PB grynodedb o'r cyfarfodydd wythnosol gyda chydweithwyr yn yr Undebau Llafur, o dan nawdd y Fforwm Partneriaeth Lleol; cyfeiriodd SW at undod a gwerth y cyfarfodydd hyn.

Penderfynodd y Bwrdd ystyried a **nodi'r** diweddariad a ddarparwyd yn yr adroddiad mewn cysylltiad â COVID-19.

Cell Lleoliadau Caeedig

Derbyniodd y Bwrdd y papur ar y Gell Lleoliadau Caeedig (Cyf 4.3.2.280520).

Atgoffodd TC y Bwrdd fod hyn wedi'i drefnu fel rhan o'r cyfnod ymateb aciwt a bod llawer o'r staff sy'n gysylltiedig â'r Gell yn newydd i'r maes gwaith hwn. Diolchodd iddynt am eu parodrwydd i ymgymryd â'r rôl newydd hon ac am ddarparu cymorth ar draws nifer o leoliadau caeedig.

Amlinellodd QS rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru yn atal a rheoli heintiau yn y lleoliadau hyn: derbyn hysbysiadau, cyngor diogelu iechyd y cyhoedd; rheoli achosion a darparu cyngor arbenigol ar ddiogelu'r cyhoedd er mwyn cynorthwyo gydag achosion a chlystyrau; darparu gwybodaeth, tystiolaeth a chanllawiau yn ôl yr angen.

Roedd yr adroddiad yn nodi ehangder y gwaith yr oedd y Gell wedi'i wneud yn ystod cam lliniaru'r ymateb; roedd hefyd yn nodi'r polisiâu a oedd yn cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cartrefi Gofal. Holodd QS i'r Bwrdd nodi'r ymarfer gwerthuso a'r cynlluniau pontio sy'n mynd rhagddynt.

Croesawodd SP rôl y Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy wrth gynnal nifer o astudiaethau ar leoliadau Cartrefi Gofal; roedd y gwaith hwn yn bwysig. Cytunodd QS i drafod yr astudiaethau epidemiolegol hyn ymhellach y tu allan i'r cyfarfod. **CAMAU GWEITHREDU: QS/SP**

Mewn ymateb i ymholiad gan JW, darparodd AJ fanylion pellach ar y camau gweithredu presennol i liniaru'r risgiau a nodir yn adran 3.6 yr adroddiad. Cyfeiriodd at y risg a rennir gyda byrddau iechyd a dywedodd y byddai canfyddiadau'r gwerthusiad yn helpu i hysbysu dulliau lliniaru.

O ystyried diddordeb aelodau'r Bwrdd yn y trefniadau pontio, cytunodd AJ i gynhyrchu papur briffio ar wahân. **CAMAU GWEITHREDU: AJ**

Penderfynodd y Bwrdd:

- Dderbyn a **nodi'r** adroddiad diweddar ar waith y Gell Lleoliadau Caeddig; a
- Derbyn **sicrwydd** mewn cysylltiad â'r adolygiad parhaus o swyddogaeth y Gell a'r cynnig pontio yng ngham nesaf ymateb Iechyd Cyhoeddus Cymru.

PHW91/2020 Cofrestr Risgiau Strategol

Derbyniodd y Bwrdd y Fframwaith Risgiau Strategol (Cyf 4.4.1.280520).

Dywedodd JW, oherwydd bod y Bwrdd wedi ystyried risgiau strategol 1-8 yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2020, ac y byddai'n gwneud hynny eto yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, y byddai'r cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu risg strategol benodol yn ymwneud â COVID-19.

Cyflwynodd TC yr adroddiad, gan ddatgan bod y grŵp Aur wedi ystyried cynnwys risg strategol yn ymwneud â COVID-19; roedd yr amlinelliad presennol yn cynnig sail ar gyfer trafod union natur y risg, camau gweithredu lliniaru priodol a ffynonellau sicrwydd cyfatebol.

Dywedodd TC, o'i safbwynt hi, fod y risgiau strategol allweddol yn canolbwyntio ar: eglurder rolau a chyfrifoldebau ar draws y system o ran cyflenwi Profi, Orlhain a Diogelu; y cydbwysedd rhwng symudiadau parhaus covid-19 ac

ailgyflwyno gwasanaethau nad ydynt yn rhai COVID; iechyd, llesiant a diogelwch staff; yr hyblygrwydd sydd ei angen ar gyfer astudiaethau goruchwyllo er mwyn dylanwadu ar gamau gweithredu amserol; cymeradwyo achos busnes IP5.

Mewn trafodaethau, croesawodd aelodau'r Bwrdd: cynnwys risg strategol a oedd yn ymwneud yn benodol â COVID; y ffocws a gynigiwyd drwy nodi'r pum prif risg strategol; y cyfle yr oedd y Rhaglen Adfer Sefydliadol i ailosod risgiau strategol a chorfforaethol.

Cadarnhaodd JW, yn un o sesiynau briffio'r Bwrdd ym Mehefin, y byddai'r Bwrdd yn cael cyfle i edrych eto ar y parodrwydd i dderbyn risg a haeniad risgiau.

Penderfynodd y Bwrdd i **gymeradwyo** mewn egwyddor y cynnig i gynnwys risg strategol COVID yn y gofrestr o risgiau o'r fath; i nodi'r pum prif risg a gyflwynwyd gan y Prif Swyddog Gweithredol a phwysigrwydd y rhain ar gyfer ail-fframio'r gofrestr risg er mwyn cynnal gwaith pellach ar y parodrwydd i dderbyn risg a haeniad risgiau.

PHW92/2020 Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol

Derbyniodd y Bwrdd y Gofrestr Risgiau Corfforaethol (Cyf 4.4.2.280520).

Cyfeiriodd TC at y drafodaeth o dan eitem flaenorol ar yr agenda, a oedd yn cadarnhau'r bwriad i adolygu'r ddwy set o risgiau. Roedd hyn yn amserol, o gofio bod y Cynllun yn cynrychioli cam newydd i Iechyd Cyhoeddus Cymru a bod y gwaith hwnnw yn cyflymu'r Rhaglen Adferiad Sefydliadol.

Penderfynodd y Bwrdd:

- Derbyn **sicrwydd** ar reoli'r risgiau busnes fel arfer a nodir yn yr adroddiad.
- **Nodi'r** bwriad i adolygu'r risgiau corfforaethol sy'n gysylltiedig â COVID-19.

PHW93/2020 Adroddiad Integredig ar Berfformiad

Derbyniodd y Bwrdd yr Adroddiad Integredig ar Berfformiad (Cyf 4.5.i.280520 a 4.5.ii.280520).

Cyflwynwyd yr Adroddiad gan HG, gan nodi'r pedair adran. Dechreuodd gyda'r dangosfwrdd COVID-19, gan fanteisio ar y cyfle i ddarparu diweddariad ar y gallu dyddiol i brofi yn ystod yr wythnos o 9,277. Roedd gwaith yn mynd rhagddo hefyd i sicrhau capasiti ychwanegol yn ystod yr wythnosau nesaf.

Tynnodd QS sylw at y nifer dyddiol newydd o achosion wedi'u cadarnhau: 100-150 ar draws Cymru; gallai hyn gynyddu'r gallu i lacio cyfyngiadau.

O ran Cyllid, dywedodd HG bod rhagolwg diwedd y flwyddyn yn parhau i awgrymu y byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni'r tri tharged ariannol. Cafwyd nodyn o rybudd ynglŷn â'r risgiau o ran gwariant COVID-19, cyllid Cymru gyfan a oedd yn destun trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru.

Roedd y Bwrdd wedi trafod nifer o faterion y gweithlu mewn trafodaethau cynharach; roedd y rhain yn ymwneud â symudiadau COVID; dywedodd PB bod dangosyddion cyffredinol y gweithlu yn parhau i fod yn gyson.

O ran y dangosyddion busnes fel arfer, nododd QS y gyfradd ailadrodd y gellir ei hosgoi o 2.4% a gyflwynwyd gan y rhaglen smotyn gwaed newydd-anedig; o ystyried yr amgylchedd gweithredu sy'n cydymffurfio â COVID lle'r oedd y sgrinwyr yn gweithio yn awr, roedd hyn yn eithriadol. Llongyfarchodd y Bwrdd a diolch i bawb a oedd yn gysylltiedig â hyn.

Disgrifiodd RB-W y naratif o ran rheoli digwyddiadau a'r gwahaniaeth rhwng digwyddiadau COVID a'r rhai nad oeddent yn rhai COVID.

Penderfynodd y Bwrdd **nodi'r** diweddariad.

PHW94/2020 Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiadau Blynyddol 2019/20

Derbyniodd y Bwrdd Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgorau (Cyf 4.6.1.280520, Cyf 4.6.2.280520, Cyf 4.6.3.280520 a Cyf 4.6.4.280520).

Atgoffodd HB y Bwrdd bod yr adroddiadau blynyddol gan y pedwar pwyllgor yn uno'r busnes yr oedd pob un wedi'i gyflawni ac wedi adrodd arno yn ystod y flwyddyn. Cawsant eu cyflwyno at ddibenion sicrwydd.

Penderfynodd y Bwrdd:

- **Ystyried** yr Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2019/20 ar gyfer y pedwar Pwyllgor, a oedd yn crynhoi'r meysydd gweithgarwch busnes allweddol a gynhaliwyd; a
- Derbyn **sicrwydd** bod y Pwyllgorau yn addas i'r diben.

PHW95/2020 Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiadau gan Gadeiryddion y Pwyllgorau

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiadau gan Gadeiryddion y Pwyllgorau (Cyf 4.7.1.280520).

Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol

Cyflwynodd DE adroddiad ar y materion allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 18 Mai 2020. Canmolodd y tîm am lunio'r cyfrifon blynyddol; roedd eu dulliau rheoli cyfrifon eithriadol ar hyd y flwyddyn wedi galluogi'r pwyllgor i gwmpasu rhaglen waith eang iawn. Yna cyfeiriodd DE at: y sgôr sylweddol yn erbyn adroddiadau archwilio mewnol ar 'Gyllid Craidd' a 'Llywodraethu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau'; y sgôr sicrwydd cyfyngedig yn erbyn

'Datblygiad Personol/Fy Nghyfraniad' gan nodi'r drafodaeth gynharach yng nghyfarfod y Bwrdd; sicrwydd yn erbyn dulliau rheoli risg sefydliadol.

Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella

Rhoddodd KE adroddiad llafar ar gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 Mai 2002. Cyfeiriodd at y canlynol:

- Trafodaethau ynglŷn ag ail-ddechrau'r rhaglenni sgrinio hynny sydd wedi'u gohirio ar hyn o bryd; rhaglenni imiwneiddio; llawdriniaethau safonol a Gweithio i Wella.

Soniodd KE hefyd am y sgôr sicrwydd cyfyngedig yn dilyn adroddiad archwilio mewnol ar reoli rhybuddion. Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol o hyn ac roedd camau gweithredu ar waith, gyda'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u cwblhau.

Cadarnhaodd KE hefyd y byddai'r Pwyllgor yn cwrdd bob 8 wythnos o hyn ymlaen.

Penderfynodd y Bwrdd i ystyried a nodi'r diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau.

PHW96/2020 Cynlluniau Gwaith y Bwrdd a'r Pwyllgorau 2020/21

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad llafar ar Gynlluniau Gwaith y Bwrdd a'r Pwyllgorau 2020/21.

Disgrifiodd HB y cynllun gwaith a fyddai'n weithredol hyd at fis Medi 2020 a rhoddodd drosolwg o'r prif eitemau i'w hystyried ym mhob fforwm. Byddai'r Cynllun yn cael ei ddsbarthu i'r Bwrdd yr wythnos nesaf. **Camau Gweithredu: HB**

PHW97/2020 Cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd a Gosod y Sêl Gyffredin

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad yn Cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd a Gosod y Sêl Gyffredin (Cyf 4.9.280520).

Penderfynodd y Bwrdd:

- **Nodi'r** achlysur pan gymerwyd Cam Gweithredu'r Cadeirydd;
- **Derbyn sicrwydd** bod y camau gweithredu'n cael eu cymryd yn unol ag Adran 2 y Rheolau Sefydlog;
- **Cadarnhau** Cam Gweithredu'r Cadeirydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth i gymeradwyo cais ar gyfer y Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd (VERS). Roedd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar gyfer sicrwydd, a chaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn eu cyfarfod nesaf.

Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cofnodion wedi'u cadarnhau 28 Mai 2020
------------------------	---

Trefnwyd y cyfarfod nesaf ar gyfer 25 Mehefin 2020.
Daeth sesiwn agored y Bwrdd i ben gyda JW yn diolch i bawb am eu cyfraniadau.
Daeth y cyfarfod i ben ar 12:45